
# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



## Caiaffas

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Caiaffas



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Caiaffas oedd yr archoffeiriad yn y Deml yn Jerwsalem.
- Yr offeiriaid oedd yn rhedeg popeth oedd yn digwydd yn y Deml gan gynnwys yr aberthau a defodau eraill.



**Beth Ddigwyddodd**

- Roedd Caiaffas yn eiddigeddus o'r sylw roedd Iesu'n ei gael a sut y gallai hyn effeithio arno fe a'r Deml.
- Roedd Caiaffas hefyd yn ofni y byddai'r gefnogaeth i Iesu yn achosi drwgdeimlad rhwng yr Iddewon a'r Rhufeiniaid oedd yn rheoli'r wlad bryd hynny.
- Cafodd Iesu ei arestio gan swyddogion diogelwch y deml ac aethpwyd ag ef at Caiaffas, yr Archoffeiriad.Cafodd Caiaffas Iesu yn euog o gabledd am ei fod yn honni ei fod yn Fab Duw.
- Marwolaeth oedd y gosb am gabledd, ond doedd gan Caiaffas ddim awdurdod i orchymyn hynny, felly aeth â Iesu at Peilat, llywodraethwr Rhufeinig Jerwsalem.



**Diffiniad**

- Cabledd: Cabledd yw dangos diffyg parch at Dduw a phethau sanctaidd; er enghraifft, defnyddio 'Duw' neu 'Iesu' fel rheg.




**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Weithiau gall cenfigen ein harwain i wneud pethau na fyddem yn eu gwneud fel arfer. Mae angen i ni feddwl pam rydyn ni'n gwneud neu'n dweud pethau, ac ystyried sut mae'n effeithio nid yn unig arnon ni'n hunain, ond ar bobl eraill hefyd.



**Ystyried**

- Beth wyt ti'n meddwl oedd Caiaffas yn ei feddwl a'i deimlo:
  - Pan glywodd gyntaf am yr hyn roedd Iesu yn ei wneud a'i ddweud;
  - Pan oedd yn cynllwynio i arestio Iesu;
  - Pan gafodd Iesu ei ladd ar y groes?
- Elli di ddisgrifio amser pan wyt ti wedi bod yn genfigennus o rywun neu rywbeth ac wedi ymateb mewn ffordd wnaeth i ti ddifaru yn ddiweddarach.